**Sesiwn 2001-2002 (11)**

**Dydd Iau, 21 Mehefin 2001**

# PLEIDLEISIAU A THRAFODION

**Dechreuodd y Cyfarfod am 9.05am**

**Eitem 1**
**Cwestiynau Llafar i Jenny Randerson, y Gweinidog dros Ddiwylliant a Chwaraeon**
O dan Reol Sefydlog 6.3, y Trefnydd atebodd y cwestiynau.
Atebwyd y 6 chwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 5 yn ôl.

**9.25am**
**Eitem 2**
**Cwestiynau Llafar i Carwyn Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig**
Atebwyd y 6 chwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 1 yn ôl.

**9.44am**
**Eitem 3**
**Cwestiynau Llafar i Andrew Davies, y Trefnydd ar ei gyfrifoldebau nad ydynt yn ymwneud â Busnes**
Atebwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Ni ofynnwyd cwestiwn 1 a thynnwyd cwestiynau 2 a 3 yn ôl.

**10.01am**
**Eitem 4**
**Datganiad**: Gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd ar Ffatri Dunlop ym Mryn-mawr.

**10.51am**
**Eitem 5**
**Dadl ar y Ddeddf Llywodraeth Leol**
*NDM705 Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

1. Yn croesawu'r ddarpariaeth ym Mesur Llywodraeth Leol y Cynulliad sy'n sefydlu fframwaith moesegol newydd ar gyfer llywodraeth leol.

2.Yn cymeradwyo'r egwyddorion cyffredinol a'r codau ymarfer ar gyfer aelodau a gweithwyr awdurdodau lleol.

3.Yn cefnogi'r swyddogaethau archwilio newydd a gynigwyd ar gyfer y Comisiynydd dros Weinyddu Lleol yng Nghymru a sefydlu Panel Dyfarniadau Annibynnol.
4. Yn cefnogi'r angen i awdurdodau lleol sefydlu pwyllgorau safonau.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

***Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru);***
***Dileer Pwyntiau Bwled 1 a 2, a rhodder pwynt bwled 1 newydd sy'n darllen fel a ganlyn:***

"Yn nodi darpariaethau Mesur Llywodraeth Leol y Cynulliad sy'n amlinellu egwyddorion cyffredinol y fframwaith foesol newydd ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru, ynghyd â'r codau ymddygiad ar gyfer aelodau a gweithwyr awdurdodau lleol."

***Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);*** *Ym mhwynt 1 dileer 'croesawu'r'* a rhodder 'nodi'r' yn ei le.

***Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);***
Ychwaneger fel pwynt bwled 4 gan ailrifo'r pwyntiau eraill yn unol â hynny:

"Yn galw ar y Comisiynydd dros Weinyddiaeth Leol yng Nghymru i archwilio'r posibilrwydd o sefydlu Rheolwr Archwilio annibynnol ym mhob awdurdod lleol."

***Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru);***
Ychwaneger pwynt newydd, sy'n darllen:

"Yn gresynu at y ffaith na nodir y dylai mwyafrif aelodau'r Pwyllgorau Safonau fod yn aelodau anetholedig, ynghyd â Chadeirydd Pwyllgor anetholedig, ac mae'n galw ar y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau i sicrhau bod hyn yn cael ei nodi ar y cyfle cyntaf un."

***Gwelliant 5 - William Graham (Dwyrain De Cymru);***
Ychwaneger pwynt newydd sy'n darllen:

"Yn gresynu bod y pwer i roi gollyngiadau ar gyfer aelodau etholedig a chyfetholedig yn gorwedd gyda'r Pwyllgor Safonau, yn hytrach na'r Cyngor llawn."

***Gwelliant 6 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);*** *Ychwaneger fel pwynt bwled* newydd ar y diwedd:

"Nodi pa mor bwysig yw hi fod cynghorwyr lleol yn datgan aelodaeth o'r seiri rhyddion."

**Cymerwyd pleidlais:**

**Gwelliant 1**

O Blaid 5; Ymatal 0; Yn erbyn 32; Cyfanswm 37

**Gwrthodwyd gwelliant 1**

**Gwelliant 2**

O Blaid 14; Ymatal 0; Yn erbyn 23; Cyfanswm 37

**Gwrthodwyd gwelliant 2**

**Gwelliant 3**

O Blaid 15; Ymatal 0; Yn erbyn 26; Cyfanswm 41

**Gwrthodwyd gwelliant 3**

**Gwelliant 4**

O Blaid 5; Ymatal 0; Yn erbyn 36; Cyfanswm 41

**Gwrthodwyd gwelliant 4**

**Gwelliant 5**

O Blaid 5; Ymatal 0; Yn erbyn 36; Cyfanswm 41

**Gwrthodwyd gwelliant 5**

**Gwelliant 6**

O Blaid 11; Ymatal 5; Yn erbyn 26; Cyfanswm 42

**Gwrthodwyd gwelliant 6**

**Y cynnig**

O Blaid 42; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 42

**Derbyniwyd y cynnig**

**11.33am**
**Eitem 6**
**Cynnig Cyfansawdd i gymeradwyo'r Gorchmynion a ganlyn:**
*NDM706 Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, drwy weithredu o dan Reol Sefydlog 22.25:*

1. Yn cymeradwyo **Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001**, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mai 2001; ac

Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n peri pryder yng ngorchymyn drafft Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Mehefin.

**2.** Yn cymeradwyo **Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2001,** a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mai; ac

Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n peri pryder yng ngorchymyn drafft Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Mehefin 2001.

**3.** Yn cymeradwyo **Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001,** a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mai; ac

Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n peri pryder yng ngorchymyn drafft Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Mehefin 2001.

**4.** Yn cymeradwyo **Rheoliadau Dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim (Cymru) 2001,** a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mai 2001; ac

Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n peri pryder yng ngorchymyn drafft Rheoliadau Dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Mehefin 2001.

**5.** Yn cymeradwyo **Rheoliadau Cod Ymddygiad (Cyflogeion Anghymwys Llywodraeth Leol) (Cymru) 2001,** a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mai 2001; ac

Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n peri pryder yng ngorchymyn drafft Rheoliadau Cod Ymddygiad (Cyflogeion Anghymwys Llywodraeth Leol) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Mehefin 2001.

**6.** Yn cymeradwyo **Gorchymyn Cod Ymddygiad (Cyflogeion Cymwys Llywodraeth Leol) (Cymru) 2001,** a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mai 2001; ac

Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n peri pryder yng ngorchymyn drafft Gorchymyn Cod Ymddygiad (Cyflogeion Cymwys Llywodraeth Leol) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Mehefin 2001.

**7.** Yn cymeradwyo **Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001** a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mai 2001; ac

Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n peri pryder yng ngorchymyn drafft Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Mehefin 2001 a'r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mehefin 2001.

**8.** Yn cymeradwyo **Gorchymyn Comisiynydd Lleol yng Nghymru (Ymchwiliadau Safonau) (Cymru) 2001,** a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mai 2001; ac

Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n peri pryder yng ngorchymyn drafft Gorchymyn Comisiynydd Lleol yng Nghymru (Ymchwiliadau Safonau) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Mehefin 2001.

**9.** Yn cymeradwyo **Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001,** a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mai 2001; ac Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n peri pryder yng ngorchymyn drafft Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Mehefin 2001.

**10.** Yn cymeradwyo **Rheoliadau Comisiwn Gweinyddiaeth Leol yng Nghymru a Chomisiynydd Lleol yng Nghymru (Swyddogaethau a Threuliau) 2001,** a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mai 2001; ac

Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n peri pryder yng ngorchymyn drafft Rheoliadau Comisiwn Gweinyddiaeth Leol yng Nghymru a Chomisiynydd Lleol yng Nghymru (Swyddogaethau a Threuliau) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Mehefin 2001.

**Cynhaliwyd pleidlais:**

O Blaid 42; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 42

**Derbyniwyd y cynnig cyfansawdd**

**11.34am**
**Eitem 7**
**Dadl Fer: *NDM704* Janet Davies (Gorllewin De Cymru); Swyddi i Bawb**

**Daeth y cyfarfod I ben am 12.04pm.**

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 26 Mehefin 2001**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A OSODWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 19 MEHEFIN 2001**

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol)(Diwygio)(Rhif 2)(Cymru) 2001 LD889

Gorchymyn Etholiadau Lleol (Cymru) 2001 LD891

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau Aelodau)(Diwygio)(Cymru) 2001 LD890

Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 200 (Cymchwyn Rhif 6)(Cymru) 2001 LD888

Gorchymyn Iechyd Planhigion (Diwygio)(Cymru) 2001 LD887

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 18 MEHEFIN 2001**

National Assembly for Wales: European Affairs Committee 2000-2001 Report - LD885 Dim Copi Cymraeg ar gael.

Ymateb Cabinet y Cynulliad Cenedlaethol i Adroddiad y Pwyllgor Archwilio 01-02: Cartref i Gynulliad Cenedlaethol Cymru - LD886